# CYNGOR CYMUNED LLANFAIR
# RHEOLAU SEFYDLOG

**1. Cadeirydd**

1.1 Etholir y Cadeirydd gan y Cyngor o blith aelodau'r Cyngor Cymuned.

1.2 Os etholir rhywun yn Gadeirydd i lenwi gwagle damweiniol, fel na g/chafodd flwyddyn lawn yn y swydd y Cadeirydd, ni fydd hynny'n rhwystr i benodi'r Cynghorydd honno/hwnnw'n Gadeirydd am flwyddyn lawn yn ei thro/dro.

**2. Is-gadeirydd**

2.1 Etholir gan y Cyngor Cymuned un o aelodau'r Cyngor Cymuned yn Is-gadeirydd.

2.2. Os bydd y Cadeirydd am unrhyw reswm yn methu gweithredu, neu os bydd swydd y Cadeirydd yn wag, caiff yr Is-gadeirydd gyflawni pob gorchwyl y gallai'r Cadeirydd fel y cyfryw ei ch/gyflawni.

**3. Cyfarfodydd**

3.1 Cynhelir cyfarfodydd o'r Cyngor ar ddyddiad a bennir yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor bob mis am 7.30 yr hwyr o Ebrill hyd at Hydref at wedyn am 7.00 yr hwyr o Dachwedd hyd at Mawrth ac eithrio mis Awst, onibai fod y Cadeirydd yn pennu. Os bydd y Cyngor yn penderfynnu gwahodd siaradwr mewn cyfarfod cynharach, bydd y cyfarfod hwnnw yn dechrau am 7.00 yr hwyr.

3.2 Saith diwrnod llawn cyn cyfarfod y Cyngor, yn cynnwys y penwythnos rhaid anfon wŷs i'r Cynghorydd i ddod i gyfarfod, a honno wedi'i harwyddo gan swyddog priodol y Cyngor ac yn rhestru'r gwaith y bwriedir ei wneud yn y cyfarfod

3.3 Pan fo Cynghorydd yn cynrychioli'r Cyngor mewn unrhyw gyfarfod, pwyllgor neu Gynhadledd – pan fo'n briodol, disgwylir adroddiad ysgrifenedig neu ar lafar yng nghyfarfod dilynol y Cyngor.

3.4 Gall y Cadeirydd alw cyfarfod arbenning o'r Cyngor ar unrhyw adeg.

**4. Cworwm**

4.1 3 Cynghorydd fydd cworwm: gall y Cyngor benderfynu ar nifer yn ôl maint y Cyngor, ond ni cheir mabwysiadu cynnig i atal y rheolau sefydlog heb gytundeb dwy ran o dair o'r rhai sy'n bresennol ac yn pleidleisio.

4.2 Os nad oes cworwm o fewn 15 munud o'r amser dechrau gohirir y cyfarfod.

4.3 Os na fydd cworwm yn bresennol pan ddaw'r Cyngor ynghyd, neu os yw nifer y Cynghorydd yn llai na'r cworwm yn ystod y cyfarfod bydd y Cadeirydd yn dod ar cyfarfod i ben yn syth a trafodir y materion nas trafodwyd yn y cyfarfod naill ai yn y cyfarfod nesaf neu ar y diwrnod a bennir gan y Cadeirydd.

**5. Datgan Diddo**rdeb

5.1 Mae'r gyfraith yn gwneud darpariaeth benodol sy'n gwneud yn ofynnol i chi ddatgelu diddordebau ariannol uniongyrchol (gan gynnwys diddordebau priod yr ydych yn byw gydag ef neu hi) a all fod gennych mewn unrhyw fater a ddaw gerbron y Cyngor, pwyllgor neu is-bwyllgor. Mae'n eich gwahardd rhag siarad neu bleidleisio ar y mater hwnnw. Bydd y rheolau sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i chi gilio o'r cyfarfod hefyd tra bo'r mater yn cael ei drafod. Rhaid i chi hefyd, yn ôl y gyfraith, ddatgan rhai diddordebau ariannol. Rhaid ufuddhau'n gydwybodol i'r gofynion hyn bob amser.

5.2 Gall diddordebau nad ydynt yn ariannol fod yr un mor bwysig. Ni ddylech ganiatáu i'r argraff gael ei chreu bod, neu y gallech fod, yn defnyddio'ch safle i hyrwyddo diddordeb preifat neu bersonol, yn hytrach na hybu diddordeb cyhoeddus cyffredin. Mae diddordebau preifat neu bersonol yn cynnwys rhai eich teulu a'ch cyfeillion yn ogystal â rhai'n codi drwy aelodaeth, neu berthynas â chlybiau, cymdeithasau a chyrff gwirfoddol.

5.3 Diddordebau Anariannol Cynghorwyr

Bydd unrhyw aelod sydd â diddordeb personol mewn unrhyw fater, a'r diddordeb personol yn cael ei ddiffinio gan God Ymddygiad Llywodraeth Leol, yn datgan rhag blaen y diddordeb hwnnw, ond gall aros, siarad a phleidleisio oni bai fod y diddordeb yn glir a sylweddol, ac mewn achos felly bydd yr aelod yn ymadael â'r ystafell. Oni bai fod ystyriaethau perthnasol eraill ni ddylid ystyried ymwneud â busnes unrhyw gorff cyhoeddus gan aelod a fydd wedi ei b/phenodi yn gynrychiolydd y Cyngor. Mewn achos o'r fath dylai'r Cynghorydd ddatgan y diddordeb ond gall aros a chymryd rhan lawn yn y cyfarfod.

## 6. Pleidleisio

6.1 Pleidleisir yng nghyfarfod y Cyngor drwy arddangos dwylo, neu, os gofynnir am hynny gan o leiaf dri Chynghorydd, drwy bleidlais gudd.

6.2 Gall y Cadeirydd bleidleisio fel Cynghorydd ar unrhyw fater, ac os bydd y pleidleisiau ar ryw fater yn gyfartal, gall iddi/iddo roi pleidlais fwrw.

6.3 Pleidlais gofrestredig

6.3.1 Gall unrhyw aelod hawlio pleidlais gofrestredig ar unrhyw achlysur (Rhaid i'r cais gael ei wneud cyn i'r bleidlais gael ei chymryd).

6.3.2 Gall unrhyw aelod hawlio cofrestru ei bleidlais unigol ar unrhyw achlysur.

## 7. Trefnu Pwyllgorau / Cyfarfodydd Cyngor

7.1 Ym mhob cyfarfod blynyddol y gweithrediadau cyntaf fydd:

7.1.1 Ethol Cadeirydd

7.1.2 Os bydd y sawl a etholwyd yn Gadeirydd yn absennol, penodir Cadeirydd i'r cyfarfod

7.1.3 Ethol Is-Gadeirydd

7.1.4 Enwebu a phenodi i gyrff allanol

Wedi hynny dilynir y drefn a osodir yn 7.3 isod.

7.2 Ym mhob cyfarfod heblaw'r Cyfarfod Blynyddol, os bydd y Cadeirydd yn absennol neu'n amharod i lywyddu, penodi Cadeirydd i'r cyfarfod fydd y swyddogaeth gyntaf.

7.3 Wedi dilyn 7.1 uchod, oni phenderfyna'r Cyngor yn wahanol am resymau brys, hon fydd trefn y pwyllgorau/cyfarfodydd:

7.3.1 Darllen ac ystyried y Cofnodion; ac os bydd copi wedi'i anfon i bob Cynghorydd erbyn diwrnod cyhoeddi'r wŷs ar gyfer y cyfarfod, gellir cyfrif y cofnodion wedi'u darllen.

7.3.2 Wedi ystyriaeth, cymeradwyo arwyddo'r cofnodion yn gofnod cywir gan Gadeirydd y cyfarfod.

7.3.3 Dilyn rhaglen bwrpasol y pwyllgor/cyfarfod.

7.3.4 Gall Cadeirydd y cyfarfod neu unrhyw Gynghorydd gynnig newid trefn rhaglen am resymau brys, ac os Cadeirydd y cyfarfod a gynigiodd, gellir rhoi'r cynnig i bleidlais heb ei eilio, a rhoir cynnig o'r fath i bleidlais heb drafodaeth.

## 8. Cynigion a gyflwynir

8.1 Ac eithrio fel y darperir gan y Rheolau Sefydlog hyn, ni cheir cyflwyno unrhyw gynnig oni fydd y cynigydd wedi rhoi rhybudd am ei eiriad a'i gyflwyno i'r Cadeirydd neu'r Clerc o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor. Os yw mater yn codi ar ôl cau'r rhaglen gellir ei gyflwyno i'r Cadeirydd neu'r Clerc a bydd y Cadeirydd yn penderfynu os yw'r mater yn cael ei ystyried fel mater brys.

8.2 Rhaid i bob cynnig neu argymhelliad fod yn berthynol i ryw gwestiwn y mae gan y Cyngor awdurdod arno, neu sy'n effeithio ar diriogaeth ei awdurdod.

8.3 Gall y Cadeirydd wneud cynnig o'r gadiar gyda chefnogaeth y Cyngor llawn.

## 9. Rheolau Dadl

9.1 Ni cheir trafodaeth ar y cofnodion ond ynglŷn â'u cywirdeb. Trwy benderfyniad y

gwneir cywiriadau yn y cofnodion.

9.2 Rhaid i Gynghorydd gyfeirio'i h/araith at y cwestiwn dan sylw neu at esboniad personol neu gwestiwn o drefn.

9.3 Ni chaiff araith y cynigydd barhau'n fwy na phum munud, ac eithrio trwy ganiatâd y Cadeirydd.

9.4 Rhaid i welliant naill ai:

9.4.1 ddileu geiriau, neu

9.4.2 ychwanegu geiriau a dileu geiriau, neu

9.4.3 ychwanegu geiriau.

9.5 Ni cheir cynnig gwelliant sydd i berwyl sy'n negyddu'r cynnig sydd gerbron y Cyngor.

9.6 Os mabwysiedir gwelliant, bydd y cynnig gyda'r gwelliant yn disodli'r cynnig gwreiddiol, a gelli gynnig gwelliannau pellach arno.

9.7 Ni chaiff Cynghorydd (heblaw am y cynigydd) siarad fwy nac unwaith ar unrhyw fater heb ganiatâd y Cadeirydd, ac eithrio i gynnig gwelliant neu ar gwestiwn o drefn neu esboniad personol, neu i gynnig cau'r drafodaeth.

9.8 Rhaid i Gynghorydd sydd eisiau siarad, ddatgan hyn drwy godi ei law
At y Cadeirydd y cyfeirir areithiau'r Cynghorwyr

**10. Camymddygiad**

Ni chaiff unrhyw Gynghorydd gamymddwyn mewn cyfarfod yny fath fodd ag i dramgwyddo'r Cyngor neu i dynnu dirmyg neu wawd arno. Os fydd y Cadeirydd yn barnu for Cynghorydd wedi camymddwyn, rhaid i'r Cadeirydd ddatgan ei farn i'r Cyngor. Yna caiff unrhyw Gynghorydd gynnig wrandewir mwyach ar y Cynghorydd a enwyd, neu ei fod yn gadael y cyfarfod. Os oes eilydd, yna rhaid pleidleisio ar y cynnig. Os anwybyddir un o'r cynigion uchod, gall y Cadeirydd dod ar cyfarfod i ben.

**11. Pleidleisio ar Benodiadau**

Pan fo rhagor na dau berson wedi'u henwebu ar gyfer unrhyw swydd a lenwir gan y Cyngor ac na cheir mwyafrif clir o bleidleisiau dros yr un ohonynt, dilëir o'r rhestr enw'r sawl a gafodd leiaf o bleidleisiau, a phleidleisir drachefn, gan ddilyn yr un drefn nes cael mwyafrif o bleidleisiau dros un person.

**12. Trafodaethau a phenderfyniadau'n effeithio ar wasanaethyddion cyflog y Cyngor**

Os cyfyd mewn cyfarfod unrhyw gwestiwn ynglŷn â phenodiad, ymddygiad, dyrchafiad, diswyddiad, cyflog neu amodau gwaith unrhyw un a gyflogir gan y Cyngor, ni cheir ei drafod nes i'r Cyngor neu'r Pwyllgor (yn ôl digwydd) benderfynu a ddylid cau allan y cyhoedd a'r wasg ai peidio.

**13. Gwariant**

Rhaid awdurdodi archebion talu allan drwy benderfyniad gan y Cyngor a'u harwyddo gan ddau Gynghorydd a'r Clerc, ond mewn achosion brys gwirioneddol gall y Clerc mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd a/neu Is Gadeirydd ddod i benderfyniad arnynt.

**14. Pwyllgorau**

14.1 Gall y Cyngor yn y Cyfarfod Blynyddol benodi pwyllgorau sefydlog, a gall ar unrhyw adeg benodi pwyllgorau eraill a fydd yn angenrheidiol.

14.2 Cyn mynd at unrhyw waith arall yn ei gyfarfod cyntaf, rhaid i bob pwyllgor ethol Cadeirydd, a gellir ethol Is-Gadeirydd.

14.3 Ac eithrio lle y gorchymynnir fel arall gan y Cyngor (ar gyfer pwyllgor) neu gan y Cyngor neu'r pwyllgor a'i penododd, traean nifer yr aelodau fydd cworwm y pwyllgor.

**15. Is-bwyllgorau**

15.1 Ac eithrio lle gorchmynnir fel arall gan y Cyngor (ar gyfer is-bwyllgor) neu gan y Cyngor neu'r pwyllgor a'i penododd, traean nifer yr aelodau fydd cworwm yr is-bwyllgor.

15.2 Yn unol ag amgylchiadau'r is-bwyllgor a barn y Cadeirydd – fe all na fydd rheol 9.6 yn hanfodol.

**16. Cyfrifon a Datganiad Ariannol**

16.1 Rhaid gosod pob cyfrif sydd i'w dalu, a phob hawliad ar y Cyngor, gerbron y Cyngor.

16.2 Wedi diwedd y flwyddyn ariannol, rhaid i'r Clerc rhoi i bob Cynghorydd datganiad o dderbyniadau a thaliadau.

**17. Mynediad y Cyhoedd a'r Wasg i Gyfarfodydd**

17.1 Rhaid i'r cyhoedd a'r wasg gael mynediad i bob cyfarfod o'r Cyngor a'i bwyllgorau; ond gall cyfarfod gau allan y cyhoedd neu'r wasg neu'r ddau dros dro drwy'r penderfyniad hwn:
Yn wyneb natur arbennig a/neu gyfrinachol y mater sydd ar gael ei drafod, mae'n ddymunol er budd y cyhoedd gau allan y cyhoedd a'r wasg dros dro gorchmynnir hwy i ymadael -

17.2 Awdurdodir y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Clerc i wneud unrhyw ddatganiadau i'r cyfryngau a ran y Cyngor.

17.3 Os fydd unrhyw un o'r cyhoedd yn torri ar unrhyw weithgareddau unrhyw gyfarfod, gall y Cadeirydd orchymyn gwacau y rhan honno o'r ystafell sy'n agored i'r cyhoedd.

**18. Materion Cyfrinachol**

Ni chaiff unrhyw Gynghorydd neu aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor ddatguddio i neb nad yw'n Gynghorydd unrhyw fater y bydd y Cyngor neu'r pwyllgor (yn ôl y digwydd) yn datgan ei fod yn gyfrinachol gyda sylw penodol i 17.1.

**19. Cyfarfodydd Brys**

19.1 Os cyfyd achos ym marn Cynghorwyr bod angen galw cyfarfod brys – gorchmynnir cais swyddogol wedi ei alw gan gynifer â 5 Cynghorydd i sylw'r Cadeirydd neu'r Clerc, yn datgan y pwnc i'w drafod ac yn tanlinellu union resymeg y brys.

19.2 Awdurdodir yr un hawl i'r Cadeirydd a/neu'r Clerc ar faterion o fyrder a/neu frys.

**20. Cyfrwng Iaith y Pwyllgorau / Cyfarfodydd**

Gweinyddir a gweithredir trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

**21. Gwrthdroi Penderfyniad Blaenorol**

21.1 Ni ellir newid penderfyniad y Cyngor (boed yn gadarnhaol neu'n nacaol) o fewn chwe mis oddigerth naill ai drwy gynnig arbennig, y bydd rhybudd ysgrifenedig ohono yn dwyn enw o leiaf chwe aelod o'r Cyngor wedi ei gyflwyno neu drwy gynnig yn deillio o adroddiad neu argymhelliad pwyllgor.

21.2 Pan fydd cynnig arbennig y cyfeirir ato wedi ei benderfynu ni all gynnig cyffelyb gael ei gyflwyno o fewn chwe mis pellach.

**22. Gweithredu Brys**

Rhoddir hawl gweithredol i'r Clerc mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd i weithredu mewn perthynas i'r canlynol:

22.2 Pan fydd brys gwirioneddol i weithredu i amddiffyn buddiannau'r Cyngor neu'r cyhoedd gan gynnwys cyfarwyddo Cyfreithiwr i weithredu os bydd angen.

22.2 I ymateb i unrhyw ymgynghoriadau pan na fydd amser yn caniatáu eu cyflwyno i ystyriaeth y Cyngor oherwydd bod dyddiad i dderbyn sylwadau neu i weithredu cyn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor.

**23. Rheoliadau Ariannol –** gweler y ddogfen 'Rheoliadau Ariannol : Cyngor Cymuned Llanfair.

**24. Cyfethol Cynghorydd i lenwi sedd wag.**

Pe bai sedd wag ar y Cyngor yn codi yn ystod tymor ei fodolaeth a bod rhaid cyfethol :

24.1 Bydd y Cyngor yn hysbysebu'r sedd wag mewn ymgais y ddenu diddordeb aelodau'r gymuned.

24.2 Bydd aelodau yn pleidleisio yn gudd am ymgeisydd o'u dewis os bydd mwy nag un ymgeisydd ar gyfer unrhyw sedd.

24.3 Os mai un ymgeisydd sydd i unrhyw sedd, yna bydd yr ymgeisydd yn cael ei dderbyn/derbyn i'r sedd trwy bleidlais gudd ar yr amod ei fod/bod yn gymwys.

24.4 Bydd y Clerc yn sicrhau fod yr ymgeisydd yn arwyddo datganiad derbyn swydd.

**25 Archwilio Dogfennau**

25.1 Caiff Cynghorydd archwilio unrhyw ddogfen sydd yn meddiant y Cyngor.

25.2 Bydd yr holl gofnodion a gedwir gan y Cyngor a chan ei bwyllgorau yn agored i'w harchwilio gan unrhyw Gynghorydd.

25.3 Bydd cofnodion cyfarfodydd y Cyngor yn agored i'w harchwilio, yn ddi-dal gan unrhyw etholwr Llywodraeth Leol yn y gymuned.

**26 Newid, Diddymu ac Atal Rheolau Sefydlog**

26.1 Medrir atal unrhyw ran o'r Rheolau Sefydlog ar gyfer unrhyw fater penodol, drwy benderfyniad mwyafrif y Cynghorwyr

26.2 Rhaid i'r Clerc rhoi copi o'r Rheolau Sefydlog hyn i bob Cynghorydd ynghyd a phob Cynghorydd newydd, pan gyflwynir iddo/iddi y Datganiad Derbyn Swydd